**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Hydref 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Miss E. M. Chard, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, S.H. Ratcliffe, A. J. Rutherford, Miss R. Siddall, D. Simmons, W. N. Tasker, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 58. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

## 59. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), Mrs J. Chamberlain-Jones (ar wyliau), Ms J. Hughes, (ymrwymiad teuluol), B. Mellor (ar wyliau), B. F. Moylan (yn sâl) a'r Parch. S. Walker (ymrwymiad gwaith).

## 60. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 21ain Medi 2016 - Rhifau Cofnod 45-57

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 21ain Medi 2016 - Rhifau Cofnod 21-25

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 61. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer ar y rhestr o ddigwyddiadau y bu iddi hi a'r Dirprwy Faer eu mynychu dros y mis diwethaf, ac yn benodol cyflwyniad pen-blwydd 90 oed i breswylydd lleol, ymweliad â busnes newydd 'Chicken and Beer Ltd' a chynhyrchiad Musical Meatballs in Mind, yr oedd wedi eu mwynhau'n fawr iawn.

Soniodd y Dirprwy Faer am ei bresenoldeb yn agor y Parc Coffa a'r Amlosgfa newydd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**62. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH - MARINE DRIVE A TYNEWYDD ROAD Y RHYL – GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO**

Adroddodd y Maer iddi dderbyn y gorchymyn traffig arfaethedig uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar gyfer gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar Marine Drive/Tynewydd Road yn ardal Splash Point.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn croesawu cyflwyniad y cyfyngiad a fyddai'n cynorthwyo gyda symudiad traffig diogelach yn yr ardal.*

**63. GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GWEITHDREFN RHEOLI DATBLYGU) (CYMRU) (DIWYGIO) 2016**

Dywedodd Clerc y Dref y byddai gofyn i ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio mwy, o'r 1af Awst 2016, ymgymryd ag ymgynghoriad cyn gwneud cais, cyn cyflwyno eu ceisiadau.

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus mae angen iddynt ymgymryd ag ymgynghoriad penodol gydag "Ymgynghorai Cymunedol".

Yr Ymgynghorai Cymunedol yw:

- Aelodau ward berthnasol y Cyngor Sir a
- Y Cyngor Tref neu Gymuned yn ardal yr hwn y mae'r cais wedi ei leoli.

Byddai gan y Cyngor Tref 28 diwrnod i ymateb i'r ymgynghoriad cyn cyflwyno cais.

O ganlyniad, rhaid cynnwys ymatebion Ymgynghorai Cymunedol gydag adroddiad arbennig a baratowyd gan y datblygwr, a gyflwynir fel rhan o'r cais cynllunio a rhaid iddo ddangos sut, os o gwbl, y mae'r datblygwr yn bwriadu delio ag unrhyw bryderon a fynegwyd.

Ar ôl cyflwyno'r cais bydd ymgynghori fel arfer gyda'r Cyngor Tref.

Dywedodd Clerc y Dref ymhellach bod Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Tref wedi dirprwyo cyfrifoldeb am benderfynu ar ymateb y Cyngor Tref i Geisiadau Cynllunio, ond nid ar gyfer yr ymgynghoriadau cyhoeddus Cyn-Cais newydd. Felly, roedd yn yn gofyn am gyfarwyddyd o ran a ddylid cyflwyno'r ymgynghoriadau cyn-cais i'r Cyngor neu'r Pwyllgor Cynllunio.

***PENDERFYNWYD*** *cyflwyno'r ymgynghoriadau cyn-cais i'r Pwyllgor Cynllunio.*

**64. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GWEITHIWR IEUENCTID CYMUNEDOL**

Ymhellach i gofnod rhif 50 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19eg Medi 2016, croesawodd y Maer Ms Bethan Bensley, Gweithiwr Ieuenctid Cymunedol, a'i gwahodd i annerch y cyfarfod.

Meddai Ms Bensley:

- ar ddydd Mawrth, roedd ei hadran yn rhedeg hyfforddiant Gwobr Dug Caeredin yng Nghanolfan y Dderwen, a oedd yn gofyn i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a chyfranogiad cymunedol, ac roedd yn gofyn am farn a syniadau'r Aelodau ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli.
- ar ddydd Mercher roeddent yn trefnu chwaraeon a choginio, gan gynnwys defnyddio 'beic smwddis' ac yn defnyddio'r gweithgareddau i adnabod problemau cymunedol a, lle'n briodol, cael y cyrff perthnasol i siarad â'r bobl ifanc.
- ar ddydd Iau, roedd gwasanaeth allgymorth chawraeon yn cael ei gynnal yn Rhuddlan ar gyfer pobl ifanc gan gynnwys saethwriaeth, tennis a "phêl droed dall".
- ar ddydd Gwener, roedd y gynghrair bêl droed yn cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden y Rhyl.
- eu bod wedi cysylltu â Chyngor Ieuenctid Sir Ddinbych ac wedi cynnal sesiynau "Noson gyda" a arweiniwyd gan y bobl ifanc, ar yr hyn y maen nhw ei eisiau neu â diddordeb ynddo, gyda'r digwyddiad nesaf yn cael ei gynnal yn Neuadd y Dref Dinbych.
- manylion prosiect ym Mharc Bruton i ddelio ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol sy'n ceisio cysylltu â phobl ifanc yr ardal trwy gyfrwng darn symudol o gyfarpar o'r enw Cawell Pêl Droed Panna. Roedd hyn yn galluogi i'r tîm feithrin perthynas â'r bobl ifanc, ac roedd hefyd yn cynnwys cyfranogiad gan swyddogion Heddlu Gogledd Cymru er mwyn dymchwel rhwystrau ymddangosiadol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd Ms Bensley:

- bod gostyngiad anferth wedi bod mewn achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gofnodwyd ers 2011.
- ei bod yn gweithio gyda DCI Davenport i gyflwyno menter yng Ngorllewin y Rhyl.
- cynllun yn y dyfodol fyddai "Prosiect Mamau Ifanc" yn targedu glendid, sgiliau rhianta a help i ddychwelyd i'r gwaith.
- bod rhwng 40-45 o bobl ifanc wedi mynychu'r sesiynau Llun-Gwener yn ystod yr haf, ond bod hyn wedi gostwng i 20 gan nad oedd y bobl ifanc hŷn yn mynychu nawr.
- nad digwyddiad y Gwasanaeth Ieuenctid Cymunedol oedd y digwyddiad "Diwrnod Mawr".
- y byddai'r Heddlu yn gwahodd Cynghorwyr Wardiau pan a phryd.
- bod Cyngor Ieuenctid Sir Ddinbych yn cynnwys 15 o bobl ifanc ledled y Sir sy'n cyfarfod mewn lleoliad sy'n addas i'r mwyafrif.
- bod cyllideb graidd y Gwasanaeth Ieuenctid yn talu am y gwasanaeth allgymorth, ei swydd hi a thri unigolyn arall am dair awr yr wythnos.
- ei bod yn fodlon derbyn manylion unrhyw fannau lle'r oedd ymddyiad gwrth-gymdeithasol gan yr Aelodau, ond proses a oedd yn cael ei gyrru gan gwynion i'r Heddlu oedd hi fel rheol.

Wrth gloi, gofynnodd Ms Bensley i'r Cynghorwyr am syniadau ar gyfer prosiectau yn y dyfodol a oedd yn addas i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Ar ran y Cyngor, diolchodd y maer i Ms Bensley am ei chyflwyniad.

## 65. <u>EITEMAU ER GWYBODAETH</u>

Dywedodd Clerc y Dref y byddai'r Cyngor Tref yn cynnal cyfarfod chwarterol o Gymdeithas Cynghorau Mwy Gogledd a Chanolbarth Cymru ar y dydd Gwener canlynol a dywedodd, oherwydd bod y cyfarfod yn cyd-daro ag agor Ysgol Uwchradd

y Rhyl, na fyddai dau o’r cynrychiolwyr a benodwyd yn medru mynychu. Gofynnodd Clerc y Dref os hoffai unrhyw Aelod arall fynychu yn eu lle fel dirprwyon.

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd unrhyw Aelodau ychwanegol ar gael i fynychu.*

**66. HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau o’r cyhoedd yn bresennol.

67. **GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**68. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

69. **TERFYNU’R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:………….……………..

Dyddiad: …………….…………..